# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

**HWLG(3)-13-10-p3: 8 Gorffennaf 2010**

## Cynnydd o ran Argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i’r Byrddau Gwasanaethau Lleol, mis Rhagfyr 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008.

Aeth deunaw mis heibio ers cyhoeddi'r adroddiad, ac mae Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) wedi'u sefydlu ledled Cymru bellach. Mae'r cynnydd yn galonogol, a gwelwn fomentwm cynyddol tuag at gydweithredu uchelgeisiol ar draws gwasanaethau lleol ar lefel leol. Nid yw hyn oll wedi'i arwain gan y BGLlau, ond maent yn rhan allweddol o'r arweinyddiaeth leol ar gyfer newid.

Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers adroddiad y Pwyllgor, felly mae'r her yn anos fyth o ran canolbwyntio ar ddinasyddion, nodi a chynnal y pethau pwysig, a dileu gwastraff a dyblygu gwaith.

Rydym wedi sefydlu'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi a Bwrdd cyfatebol i roi ysgogiad newydd i hyn - fel y nodwyd yn natganiad y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i'r Cynulliad ar 29 Mehefin. Rhaglen weithredu yw hon y cytunwyd arni â'n partneriaid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith y BGLlau.

Er mwyn cyflawni hyn yn lleol bydd angen trafodaethau agored a gonest rhwng arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, parodrwydd i rannu adnoddau a chymryd golwg cyfannol o'r effaith ar ddinasyddion. Mae'r dull tîm sydd ei angen arnom i wneud hyn ar waith eisoes gyda'r BGLlau - mae eu gorchwyl hyd yn oed yn bwysicach nag yr oedd yn 2007.

Bydd y Pwyllgor yn cofio i'r dystiolaeth gynnar o ran cynnydd ddod o chwe ardal beilot yn bennaf (Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili a Wrecsam) a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn 2007. Ers hynny mae'r momentwm o'r ardaloedd sy'n weddill wedi cynyddu.

I grynhoi'r broses o gyflwyno'r BGLlau dros y flwyddyn ddiwethaf, hoffwn amlygu tair elfen:

mae'r prosiectau peilot cynnar y BGLl yn cael effaith gynyddol, er enghraifft, prosiect Gweddnewid Cymdogaethau Caerdydd (a ystyrir gan y Swyddfa Gartref fel enghraifft i'r DU) a phrosiectau integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol Sir Gaerfyrddin;

ceir momentwm cynyddol mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd peilot, er enghraifft, siop un stop aml-asiantaeth BGLl Casnewydd, sy'n symleiddio mynediad i wasanaethau ar gyfer dinasyddion; Prosiect Cleifion Eiddil Gwent, sy'n datblygu ar sail y model gofal integredig a ddechreuwyd gan BGLl Torfaen, prosiect BGLl Abertawe i dargedu ymyrraeth i gefnogi plant mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig; gwaith ar rannu asedau gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Fynwy, Conwy a Sir Ddinbych (rheoli asedau a rennir yw un o'r rhaglenni gwaith cenedlaethol a arweinir gan y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi);

mwy o weithio ar draws BGLlau a throsglwyddo gwersi a ddysgwyd rhyngddynt, er enghraifft mae'r gwaith ar drais yn y cartref a dreialwyd yn RhCT yn cael ei gyflwyno ym Merthyr a Chasnewydd, ac mae nifer o BGLlau yn dysgu o fodel rheoli cymdogaethau Caerdydd, ac mae sawl BGLl yn cyflawni prosiectau carbon isel ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf isod ar bob un o argymhellion adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008. Er hwylustod, rwyf wedi cyflwyno pob diweddariad fel atodiad i'r ymateb cynharach gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd.

Ymatebion Manwl

1. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad ar rôl y Byrddau Gwasanaethau Lleol fel peirianwaith ar gyfer cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru’n Un.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae’r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn grwp arweinyddol sy’n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal yn cydweithio i wella’r modd y cyflenwir y gwasanaethau i’r dinasyddion, ar draws y ffiniau sefydliadol. Eu rôl yw canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol sy’n berthnasol i bob ardal leol. Mae’r Byrddau wedi’u llunio o dimau o uwch swyddogion o’r sefydliadau sy’n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau lleol. Disgwylir iddynt ddarparu’r arweinyddiaeth gydlynol sy’n ofynnol er mwyn helpu i oresgyn problemau anodd, rheolaidd, na ellir eu datrys oni cheir cydweithredu a phartneriaeth.

Nid yw’r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn sefydliadau ffurfiol ar wahân, ac ni ddylid eu gweld fel peirianweithiau ar gyfer cyflawni. Nid ydynt yn disodli dyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol na chyfrifoldebau sefydledig cyrff cyhoeddus a phartneriaid eraill, boed wedi’u datganoli neu beidio.

Mae Llywodraeth Cymru’n Un yn awyddus i weld sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ar draws Cymru yn cydweithio mewn

partneriaethau uchel eu perfformiad, gan roi'r dinasyddion wrth galon eu cynllunio a'u cyflawni. Yr egwyddor sylfaenol hon fydd yn gollwng y ffrwyn ar arloesedd a gwelliant ar bob lefel o lywodraeth. Mae'n hanfodol cryfhau'r arweinyddiaeth gydweithredol yn lleol, trwy nodi'r heriau cyffredin a meithrin dealltwriaeth a phwrpas ar y cyd er mwyn cyflawni'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel ar draws Cymru.

Mae swyddogaeth arweinyddol y BGLl yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau proffesiynol a sefydliadol sy'n atal rhagoriaeth wyn y modd y cyflenwir gwasanaethau. Mae'r Cytundeb Cyflenwi Lleol yn rhoi fframwaith i'r BGLl ar gyfer nodi'r rhwystrau hyn a sefydlu'r prosiectau sy'n ofynnol i'w goresgyn. Cafodd y prosiectau y mae'r BGLl wedi bod yn gweithio arnynt eu nodi trwy'r broses gynllunio leol, e.e. y cynllun cymunedol, y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles a'r cynllun plant a phobl ifanc. Mae'r prosesau cynllunio hyn yn sail ar gyfer strategaethau cenedlaethol, ac i'r gwrthwyneb. Dylent gynnwys ymgynghori effeithiol gyda dinasyddion a rhanddeiliaid. Mae'n hanfodol gweithredu i sicrhau y cyflawnir y cynlluniau lleol hyn yn effeithiol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gwell, mwy ymatebol, sy'n canolbwyntio mwy ar y dinasyddion, fel a nodir yn Cymru'n Un.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddwy ddogfen ers ymchwiliad y pwyllgor, sy'n rhoi eglurhad pellach o'u rôl yn y rhaglen ehangach o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

Byrddau Gwasanaethau Lleol: Adeiladu ar Lwyddiant, mis Tachwedd 2009

Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Rhagfyr 2009

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddarparu copïau o'r ddwy ddogfen i'r Pwyllgor.

Fel y dywedais uchod, mae'r cyd-destun ar gyfer gwaith y BGLlau, fel ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, wedi newid yn sgîl yr heriau ariannol newydd. Ceir cyswllt clir rhwng rhaglen genedlaethol y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi, y cytunwyd arni â'r holl bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, a gwaith y BGLlau. Yn wreiddiol nodwyd nifer o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi, megis rhannu asedau ac adnoddau eraill, rhannu cyllidebau a chyflymu'r broses o integreiddio gwasanaethau, gan y BGLlau ar lefel leol. Bydd y rhaglen genedlaethol yn galluogi cynnydd cyflymach o ran y materion hyn.

2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog a'i swyddogion ddatblygu un diffiniad ar gyfer y BGLlau, y gall y cyhoedd ei ddeall yn rhwydd.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Byddaf yn ymroi i ddatblygu esboniad o'r BGLlau i'w gyhoeddi ar wefan BGLl Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn seiliedig ar yr ymateb i argymhelliad cyntaf y Pwyllgor, a nodir uchod, ac a fydd yn cynnwys dolenni i'r enghreifftiau lleol o'r cymorth yn mae'r BGLl yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus lleol i gydweithio er mwyn darparu manteision gwirioneddol i'r dinasyddion.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Ceir yr esboniad canlynol o rôl y BGLlau ar wefan Llywodraeth y Cynulliad:

'Mae arweinwyr sefydliadau lleol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn dod at ei gilydd ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol er mwyn gweithredu ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau i'r cyhoedd yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd.'

Mae'r dudalen berthnasol yn rhoi eglurhad pellach o'u rôl, a dolenni i'r adran berthnasol o wefan yr awdurdod lleol sy'n rhoi manylion o waith y BGLlau yn yr ardal honno.

Hefyd ceir adran Cwestiynau Cyffredin sy'n rhoi mwy o fanylion.

http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/localserviceboards/?lang=cy

3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r partneriaid yn y BGLlau barhau i ddefnyddio swyddogion uchel, sy'n gallu gwneud penderfyniadau priodol ar ran eu sefydliadau, i ymgysylltu â'r BGLlau.

Ymateb: Derbyn.

Sylwadau: Mae Prosbectws 2007 a Dogfen Drywydd 2008 yn mynegi'n glir bod disgwyl i'r BGLlau gynnwys unigolion sy'n ymgymryd â swyddogaethau arweiniol, ac, yn ymarferol, dyna sy'n digwydd.

Er mwyn lleihau biwrocratiaeth a sicrhau bod y BGLlau yn canolbwyntio ar faterion sydd angen sylw ar eu lefel hwy, nid ydym wedi ceisio rhoi grym statudol i'r dull gweithredu na phennu'r aelodaeth a'r prosesau. Rwy'n dymuno gweld cymaint â phosibl o berchnogaeth leol ar y problemau a'r datrysiadau - dylid adeiladu ar y sylfeini'r cynllunio strategol presennol trwy ychwanegu technegau arloesol a ffyrdd newydd o gyfuno gwybodaeth ac adnoddau.

Un o swyddogaethau'r BGLl yw goruchwylio'r modd y mae'r holl bartneriaethau lleol yn gweithio, er mwyn osgoi adrannu a dyblygu gwaith yn ormodol a sicrhau darlun holistig o ddinasyddion a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar staffio, swyddogaethau a chyfrifoldebau, a materion datblygu sefydliadol sy'n gallu cael effaith arwyddocaol ar y gwaith partneriaeth. Ni allai'r BGLl gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol heb gyfranogiad uniongyrchol uwch arweinwyr.

Yn yr un modd, fel yr esboniaf isod, mae angen i gynrychiolydd Llywodraeth y Cynulliad fod yn unigolyn sydd â'r awdurdod, sgiliau a

phrofiad i gyfrannu'n effeithiol i'r grwp hwn.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am aelodaeth a dull gweithredu'r BGLl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar y canlyniadau - sef bod cyflenwi ymarferol yn gydgysylltiedig ac yn effeithiol, a bod sefydliadau yn gweithio yn ôl yr un agenda, mewn ymateb i'r heriau cyllidebol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n hanfodol sicrhau bod y bobl sydd mewn rolau arweiniol yn cyd-drafod, a dyna'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.

Ceir dulliau eraill heblaw'r BGLlau o sicrhau y caiff cynlluniau a chyflenwi eu hintegreiddio: maent yn ganolbwynt i rwydwaith lleol ehangach sy'n cynnwys y partneriaethau statudol lleol (Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a Diogelwch Cymunedol). Mae'r partneriaethau hyn yn gweithredu o fewn cyd-destun cenedlaethol y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi a'r Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus y soniais amdani uchod.

4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r BGLlau sefydlu strwythurau a phrosesau er mwyn sicrhau dilyniant pan fydd unigolion allweddol ar BGLl yn ymadael.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Rwy'n cytuno y dylai cynefino a chymorth i aelodau newydd fod yn rhan allweddol o waith cynllunio'r BGLlau a phartneriaethau eraill, ac y dylai fod yn rhan o'r prosesau cynefino ar gyfer pobl ar lefel uwch sy'n ymgymryd â swyddogaethau newydd mewn partneriaethau. Er nad yw hwn yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei weithredu, bydd fy swyddogion yn annog BGLlau i gynnwys hyn yn eu gwaith datblygu parhaus.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Mae'n anochel y bydd unigolion yn symud ymlaen o rolau, a bydd aelodaeth BGLlau yn newid o ganlyniad i hynny. Mae hyn i'w ddisgwyl mewn pob partneriaeth, a gall egni a syniadau newydd ddod yn sgîl newid. Rôl timau cefnogi partneriaeth yr awdurdod lleol yw rheoli hyn, a threfnu hyfforddiant sefydlu lle bo'i angen.

5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod y 7 corff newydd yn y GIG yn deall yn llawn fod angen ymgysylltu â BGLlau, a phartneriaid eraill perthnasol, er mwyn sicrhau parhad yn dilyn yr ailstrwythuro.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Ymdriniwyd yn uniongyrchol â'r mater hwn yn y papurau ymgynghori ar y diwygiadau strwythurol yn y GIG, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr, a rhoddir ystyriaeth iddynt o fewn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, a fydd yn dod i law erbyn 25 Chwefror.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Pwysleisiwyd yr angen i gyrff newydd y GIG ymgysylltu'n llawn â'r BGLlau drwy gydol rhaglen ailstrwythuro'r GIG, a gofynnwyd i BILlau nodi'n glir pwy a fydd yn ymgysylltu â'r BILlau o fewn eu sefydliadau a sut y byddant yn gwneud hynny. Mae'r BILlau hefyd wedi'u cysylltu'n ffurfiol ag ardaloedd llywodraeth leol drwy nifer o systemau eraill megis cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer datblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a Strategaethau Diogelwch Cymunedol, a thrwy Fyrddau Diogelu Lleol.

6. Rydym yn argymell, pan sefydlir y 7 corff newydd yn y GIG, bod Gweinidogion yn datgan yn glir pa ardaloedd awdurdodau lleol y maent yn delio â hwy at ddibenion BGLlau.

Ymateb: Wedi'i gwblhau

Sylwadau: Mae'r map yn Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhagfyr 2008 wedi nodi'r modd y mae ardaloedd y Byrddau Iechyd Lleol newydd yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau lleol sydd oddi mewn iddynt.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Mae pob un o'r BILlau newydd yn cyd-ffinio'n ffurfiol â grŵp o ardaloedd awdurdodau lleol, heblaw ym Mhowys, lle mae gan yr awdurdod lleol a'r BILl yr un ffiniau. Mae gan y BILlau gyfrifoldeb ffurfiol am eu poblogaeth leol, fel sydd gan awdurdodau lleol.

7. Rydym yn argymell bod uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ymwneud yn uniongyrchol â BGLlau ac rydym yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog yn dweud y dylai hyn barhau.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor wedi cydnabod y gwerth y mae'r cam arloesol hwn yn ei ychwanegu at y berthynas rhwng y partneriaid lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hoffwn ategu fy ymrwymiad i ddatblygu'r rôl hon ymhellach yn rhan o'n dull newydd o arwain trwy ymgysylltu er mwyn cryfhau dulliau cydweithredol o gyflenwi gwasanaethau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Rydym wedi parhau i ymgysylltu â BGLlau drwy ein huwch swyddogion. Gwerthfawrogir y rôl gan y partneriaid ac mae'n ychwanegu gwerth, fel y trafodir mewn ymateb i argymhellion 8 a 9 isod.

8. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi diffiniad clir o rôl ac atebolrwydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â BGLlau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Nodwyd pwrpas y rôl yn y prosbectws dechreuol yn Ionawr 2007, ac roedd yn cynnwys:

Cydgysylltu pwrpasol rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad;

rhoi adborth i Lywodraeth y Cynulliad am faterion a blaenoriaethau lleol, a’r camau gweithredu y mae angen iddi eu cymryd i hwyluso datrys problemau yn lleol a helpu i gefnogi gwelliannau yn y gwasanaethau lleol;

nodi ffyrdd o leihau biwrocratiaeth ganolog a chanfod y rhwystrau eraill rhag cyflenwi gwasanaethau mewn modd ymatebol ac arloesol ar lefel leol;

cyfrannu at ddatrys problemau yn lleol a gweithredu fel cyfryngwr yn ôl yr angen, yn enwedig rhwng sectorau;

lledaenu arferion da gan eraill - gan gynnwys Byrddau eraill;

cyfrannu at herio cilyddol adeiladol o fewn y Bwrdd ynghylch perfformiad gwasanaethau;

cyfrannu i rwydwaith o newid o fewn Llywodraeth y Cynulliad, gyda’r nod o ddatblygu’r sefydliad a’i helpu i fod yn fwy dinesydd-ganolog ac agored i ddylanwadau allanol a chanolbwyntio mwy ar gyflenwi.

Bydd y rôl yn parhau i esblygu ac addasu i amgylchiadau lleol, ond tybiaf, yn ôl y profiad hyd yma, y dylai’r elfennau uchod barhau yn greiddiol i’r rôl. Mae’r ddogfen drywydd a gyhoeddwyd ym Medi 2008, 'Gwireddu’r Potensial’ yn cadarnhau bod angen i’r rôl fod yn hyblyg ac y dylem addasu wrth inni ddysgu.

Byddwn yn parhau i weithio gyda 22 gynrychiolydd BGLl Llywodraeth y Cynulliad, fel grwp, i sicrhau eu bod yn rhannu eu profiadau hwy â chydweithwyr ar draws Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys cynrychiolwyr polisi a’r rhai sy’n gweithio ar y Cynllun Gofodol. Bydd hyn, ynghyd â’r cydweithio clos parhaus â thimau cymorth lleol y BGLl, yn helpu i sicrhau y datblygir dull gweithredu cyson a dealltwriaeth.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Mae'r diffiniad o rôl swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a nodwyd yn nogfen drywydd 2008 wedi bod yn briodol. Mae'r rôl yn hyblyg, ac fe'i gwerthfawrogir gan bartneriaid lleol a chan Lywodraeth y Cynulliad.

9. Rydym yn argymell, unwaith y bydd pob un o’r 22 BGLl wedi’u sefydlu’n llawn, bod y Gweinidog yn adolygu’r modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â hwy er mwyn sicrhau bod yr hyn a wneir yn gynaliadwy o ran parhau i gael uwch swyddogion i weithredu yn y cyswllt hwn ond gan sicrhau ar yr un pryd nad yw’r swyddogion dan sylw’n rhoi gormod o ymdrech i’r gwaith ar draul eu swyddogaethau craidd.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Rwy’n cytuno y dylid parhau i adolygu ein hymrwymiad - mae hyn yn arfer da i’r holl sefydliadau sydd mewn partneriaeth. Rwy’n cyfarfod yn rheolaidd â’n cynrychiolwyr ni ar y BGLlau i glywed eu hadborth a thrafod natur yr ymrwymiad sy’n ofynnol ganddynt i gyflawni’r rôl BGLl. Rwy’n cydnabod bod y rôl BGLl yn her ychwanegol iddynt hwy ac rwy’n ddiolchgar bod cynifer wedi gwirfoddoli i’w chyflawni am eu bod yn ei hystyried yn rhan bwysig o’u rôl gorfforaethol fel uwch swyddogion. Cefais fy mhlesio gan y ffordd y maent wedi llwyddo i gydbwyso’r rôl hon â’u cyfrifoldebau portffolio.

Yn fy nhyb i, mae’r rôl cynrychiolydd BGLl yn cydategu’r swyddogaethau portffolio. Os yw Llywodraeth y Cynulliad i fod yn agored i ddylanwadau allanol, yn canolbwyntio ar gyflenwi ac yn arloesol, mae’n bwysig bod ei swyddogion yn cael profiad uniongyrchol o weithio gyda’r sefydliadau cyflenwi, gan gynnwys deall realiti’r gwaith o gyflenwi gwasanaethau mewn partneriaeth. Byddwn yn eu hannog i ddysgu o’r profiad hwn a rhannu eu gwybodaeth â’u cydweithwyr er mwyn i’r sefydliad ehangach allu manteisio hefyd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Rydym yn cydnabod y materion a nodwyd gan y Pwyllgor, ac rydym yn parhau i adolygu'r rôl. Ein hasesiad hyd yma, a gefnogir gan adborth gan bartneriaid, yw bod y rôl yn ychwanegu gwerth iddynt hwy a'r unigolion dan sylw. Roedd yn rhywbeth arloesol yn 2007, bellach mae wedi dod yn rhan sefydledig o'n cydberthynas â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'r rôl yn cynnig cyfle gwerthfawr i swyddogion gael dealltwriaeth o faterion ymarferol cyflawni newid ar draws ffiniau sefydliadol, a defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Maent hefyd yn ychwanegu gwerth drwy rannu arfer da gyda swyddogion cyfatebol mewn BILlau eraill a chydweithwyr eraill.

10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r partneriaid o’r BGLlau yn edrych i mewn i unrhyw fodd y gellir cefnogi’r trydydd sector fel y byddant yn gwella’u gallu i ymgysylltu â’r BGLlau.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Rwy'n ystyried bod ymgysylltiad y trydydd sector, a chyflenwi mewn partneriaeth yn gyffredinol, yn hanfodol i lwyddiant y BGLlau oherwydd ei fod yn creu cyfle am ddeialog a ffyrdd newydd o feddwl am y berthynas rhwng dinasyddion a chymunedau. Rwy'n cydnabod bod y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) yn gyrff bach, ac mae fy swyddogion yn chwilio am ffyrdd i'w helpu i gyfrannu'n effeithiol i'r gwaith hwn. Er enghraifft, mae'r Tîm Prosiect BGLl yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru er mwyn helpu i greu cyfleoedd datblygu ar gyfer arweinwyr y CGS. Rydym hefyd wedi annog BGLlau i feddwl yn greadigol am y modd y gallent ddefnyddio'u Grant Cymorth Datblygu BGLl (£50,000 y BGLl) er mwyn hwyluso ymgysylltiad partneriaid ar lefel leol. Yn ychwanegol, mae CGGC wedi cyflwyno cais am gyllid cydgyfeirio i gynorthwyo ymgysylltiad y trydydd sector, y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i'w gefnogi.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Mae grant cymorth datblygu'r BGLl yn cael ei gyllido allan o'r cyllidebau cyfredol.

Y wybodaeth ddiweddaraf: Mae  cais Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) am arian o dan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: Fframwaith Creu'r Cysylltiadau i gefnogi mwy o gapasiti o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol i'w galluogi i gael mwy o ymwneud â'r BILlau yn ddatblygiad allweddol. Mae'r cais bellach yn mynd drwy'r broses ymgeisio.

11. Rydym yn argymell bod swyddogion yn dal ati i gyfarfod a datblygu'r syniadau ymhellach am sut i graffu ar BGLlau, gan rannu'r syniadau â phartneriaid yn y BGLlau.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Byddwn yn parhau i gefnogi a hwyluso cyfarfodydd y swyddogion craffu o'r chwe BGLl peilot ac yn gweithio gyda hwy i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'u gwaith hwy yn cael ei rannu â'r swyddogion craffu ac aelodau etholedig arweiniol sy'n rhan o rwydwaith craffu CGGC.

Byddwn yn cynnal digwyddiad yn yr haf ac yn cyhoeddi diweddariadau yn yr e-fwletin llywodraeth leol a chylchythyrau'r BGLlau er mwyn lledaenu'r hyn a ddysgir o'r prosiectau craffu ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gyda chymorth o'r Gronfa Datblygu Craffu.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Rydym yn parhau i rannu gwersi a ddysgwyd ar y mater hwn, yn cynnwys cylchlythyr y BGLl, sy'n offeryn allweddol ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i bob BGLl yn gyffredinol.

Mae'r datblygiadau diweddar yn cynnwys cynhadledd ar ddechrau'r mis i ledaenu gwybodaeth am brofiad prosiectau'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu a oedd yn cynnwys nifer o brosiectau BGLl.  Ymhlith y rhain roedd: datblygu panel craffu enghreifftiol ar gyfer BGLl Caerdydd, prosiect gan Gastell-nedd Port Talbot gyda'r nod o ddatblygu ei allu i graffu er mwyn darparu model sy'n debyg i'r hyn a geir yng Nghaerdydd, prosiect ar y cyd rhwng Cyngor Torfaen a'i BGLl i ddatblygu craffu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a phrosiect ar y cyd yn Sir Gaerfyrddin rhwng y cyngor a'r Cyngor Iechyd Cymuned i graffu ar y swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir.

Cynhaliwyd cyfarfod o rwydwaith arloesed craffu'r BGLl ym mis Tachwedd 2009, a chafwyd lefel dda o bresenoldeb gan swyddogion craffu a swyddogion cymorth y BGLlau.  Bwriedir cynnal cyfarfod pellach ar gyfer y rhwydwaith hwn ym mis Gorffennaf 2010.

12. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu model craffu eglur a thryloyw, y gellir ei gymhwyso i sefyllfa bob BGLl, gyda digon o hyblygrwydd fel y gellir addasu'r trefniadau yn lleol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Sylwadau: Credaf y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi egwyddorion eglur, ond y dylai'r modelau a threfniadau gwaith manwl gael eu pennu yn lleol a'u cytuno rhwng y partneriaid. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

dylai'r trefniadau ar gyfer cyflenwi mewn partneriaeth fod yn dryloyw ac yn agored i graffu democrataidd

dylai'r craffu ganolbwyntio ar y dinesydd, ac nid ar y sefydliad, a dylid cynnwys yr holl wasanaethau sy'n cyfrannu at ganlyniad penodol;

dylai'r craffu fod yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar wella;

dylai partneriaid lleol gael cyfranogi fel y bo'n briodol i'r pwnc dan sylw, boed fel y rhai sy'n craffu neu'r rhai y creffir arnynt.

Credaf y dylai'r egwyddorion hyn fod yn gymwys i BGLlau ac i'r gwaith o graffu ar bob math o weithio ar y cyd sy'n digwydd ar lefel awdurdodau lleol.

Mae'r Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu yn cynnwys darpariaethau a fydd yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd yn ei alluogi i wneud Mesur/Mesurau y Cynulliad yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu awdurdodau lleol ac yng nghyd-destun pwyllgorau craffu awdurdodau lleol, ac eithrio pwyllgorau trosedd ac anrhefn. Bydd pwerau'r mesur yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori ar gynigion a allai gyflwyno dyletswydd i graffu ar y sector cyhoeddus, ond bydd y trefniadau ar gyfer pwyllgorau trosedd ac anrhefn yn parhau i gael eu llywodraethu gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Cytunodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyda'r Swyddfa Gartref i gychwyn adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, a fydd yn sefydlu a chreu trefniadau ar gyfer pwyllgorau statudol ym meysydd trosedd ac anrhefn yng Nghymru, i gynyddu'r atebolrwydd lleol dros ddiogelwch cymunedol. Bydd y darpariaethau yn dod i rym ar 1 Hydref 2009. Maent yn cynnwys pwer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylai'r pwyllgorau hyn weithredu ac i'r

Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, i wneud rheoliadau ynghylch aelodaeth y pwyllgorau, amlder y cyfarfodydd a’u pwer i ofyn am wybodaeth a phresenoldeb eraill yn eu cyfarfodydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Y wybodaeth ddiweddaraf: Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cyflwyno papur ar wahân ar ddatblygiadau o ran trosolwg a chraffu i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 8fed Gorffennaf a fydd yn ymdrin â'r pwnc hwn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mehefin 2010